



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2012 Rhif 59 (Cy.13)**

**Y GYMRAEG, CYMRU**

Rheoliadau Panel Cyngori  
Comisiynydd y Gymraeg (Penodi)  
2012

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn darparu ar gyfer creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"). Bydd panel o gynghorwyr yn cefnogi'r Comisiynydd yn ei waith. Mae adran 23 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi aelodau'r panel cyngori hwn ac yn esbonio bod y panel hwn i'w alw'n Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg ("y Panel Cyngori").

Mae paragraff 1 o Atodlen 4 i'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rheoliadau penodi wrth benodi aelodau'r Panel Cyngori.

Mae paragraff 5(1) o'r Atodlen honno yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau penodi.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn i gydymffurfio â'u dyletswydd i wneud rheoliadau penodi.

Mae rheoliad 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth benodi aelodau'r Panel Cyngori, i ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb gweinidogion, teilyngdod, craffu annibynnol, cyfle cyfartal, uniondeb, didwylled a thryloywder, a chymsuredd gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad o'r egwyddorion hynny a nodir yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Gyhoeddus dyddiedig Awst 2009. Gellir cael copi o'r Cod Ymarfer dyddiedig Awst 2009 ar wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: [www.publicappointmentscommissioner.org/](http://www.publicappointmentscommissioner.org/)

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2012 No. 59 (W.13)**

**WELSH LANGUAGE, WALES**

The Advisory Panel to the Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2012

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 ("the Measure") provides for the establishment of the office of Welsh Language Commissioner ("the Commissioner"). The Commissioner will be supported in his or her work by a panel of advisers. Section 23 of the Measure imposes a duty upon the Welsh Ministers to appoint the members of this advisory panel and explains that the panel is to be known as the Advisory Panel to the Welsh Language Commissioner ("the Advisory Panel").

Paragraph 1 of Schedule 4 to the Measure provides that the Welsh Ministers must comply with appointment regulations in appointing members of the Advisory Panel.

Paragraph 5(1) of that Schedule provides that the Welsh Ministers must make appointment regulations.

The Welsh Ministers make these Regulations to comply with their duty to make appointment regulations.

Regulation 2 imposes a duty upon the Welsh Ministers, in appointing members of the Advisory Panel, to follow the principles of ministerial responsibility, merit, independent scrutiny, equal opportunities, probity, openness and transparency, and proportionality taking into account the description of those principles set out in the Commissioner for Public Appointments' Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies of August 2009. A copy of the Code of Practice of August 2009 can be found on the Commissioner for Public Appointments' website: [www.publicappointmentscommissioner.org/](http://www.publicappointmentscommissioner.org/)

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth benodi aelodau'r Panel Cyngori, i roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol i aelodaeth y Panel Cyngori gynnwys personau â gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a phrofiad aelodau'r Panel Cyngori o'r materion hynny y mae gan y Comisiynydd swyddogaethau yn eu cylch.

Mae rheoliad 4(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru cyn iddynt benodi aelodau'r Panel Cyngori i ganfod, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, wybodaeth a phrofiad y Comisiynydd o'r materion canlynol: llywodraethu corfforaethol, arfer swyddogaethau sydd wedi eu rhoi gan neu o dan ddeddfiad, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall, cysylltiadau cyhoeddus, cyfundrefnau rheoleiddiol, a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.

Mae rheoliad 4(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wrth iddynt benodi aelodau'r Panel Cyngori i roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol i wybodaeth a phrofiad y Comisiynydd ac aelodau'r Panel Cyngori, gyda'i gilydd, gynnwys gwybodaeth a phrofiad o'r materion canlynol: llywodraethu corfforaethol, arfer swyddogaethau sydd wedi eu rhoi gan neu o dan ddeddfiad, hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall, cysylltiadau cyhoeddus, cyfundrefnau rheoleiddiol, a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Regulation 3 requires the Welsh Ministers, in appointing members of the Advisory Panel, to have regard to the fact that it is desirable for the Advisory Panel's membership to include persons with knowledge of, and proficiency in, the Welsh language.

Regulation 4 makes provision relating to the Advisory Panel's members' knowledge and experience of matters in respect of which the Commissioner exercises functions.

Regulation 4(1) places a duty upon the Welsh Ministers, before appointing persons as members of the Advisory Panel, to ascertain as far as is reasonably practicable the Commissioner's knowledge and experience of the following matters: corporate governance, exercising functions conferred by or under an enactment, promoting and facilitating the use of Welsh or another language, public relations, regulatory regimes, and working in partnership with organisations in the public, private or voluntary sectors.

Regulation 4(2) requires the Welsh Ministers, in appointing members of the Advisory Panel, to have regard to the fact that it is desirable that the combined knowledge and experience of the Commissioner and Advisory Panel's members includes knowledge and experience of the following matters: corporate governance, exercising functions conferred by or under an enactment, promoting and facilitating the use of Welsh or another language, public relations, regulatory regimes, and working in partnership with organisations in the public, private or voluntary sectors.

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for these Regulations.

**2012 Rhif 59 (Cy.13)**

**Y GYMRAEG, CYMRU**

**Rheoliadau Panel Cyngori  
Comisiynydd y Gymraeg (Penodi)  
2012**

<i>Gwnaed</i>	<i>11 Ionawr 2012</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>12 Ionawr 2012</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>6 Chwefror 2012</i>

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 23(4) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1) a pharagraff 5 o Atodlen 4 iddo, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwysyo**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 6 Chwefror 2012 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Yr egwyddorion i'w dilyn**

2. Wrth benodi aelodau o'r Panel Cyngori rhaid i Weinidogion Cymru ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb gweinidogion, teilyngdod, craffu annibynnol, cyfle cyfartal, uniondeb, didwylledd a thyroloywder, a chymesuredd gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad o'r egwyddorion hynny yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Gyhoeddus dyddiedig Awst 2009.

**Gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi**

3. Wrth benodi personau yn aelodau o'r Panel Cyngori rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol bod aelodaeth y Panel Cyngori yn cynnwys personau sydd â gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi.

**2012 No. 59 (W.13)**

**WELSH LANGUAGE, WALES**

**The Advisory Panel to the Welsh  
Language Commissioner  
(Appointment) Regulations 2012**

<i>Made</i>	<i>11 January 2012</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>12 January 2012</i>
<i>Coming into force</i>	<i>6 February 2012</i>

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 23(4) and paragraph 5 of Schedule 4 to the Welsh Language (Wales) Measure 2011(1), make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

1.—(1) The title of these Regulations is the Advisory Panel to the Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2012.

(2) These Regulations come into force on 6 February 2012 and apply in relation to Wales.

**Principles to be followed**

2. In appointing members of the Advisory Panel the Welsh Ministers must follow the principles of ministerial responsibility, merit, independent scrutiny, equal opportunities, probity, openness and transparency and proportionality taking into account the description of those principles in the Commissioner for Public Appointments' Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies of August 2009.

**Knowledge of, and proficiency in, Welsh**

3. In appointing persons to be members of the Advisory Panel the Welsh Ministers must have regard to the fact that it is desirable that the Advisory Panel's membership includes persons with knowledge of, and proficiency in, the Welsh language.

## Gwybodaeth a phrofiad

4.—(1) Cyn penodi personau yn aelodau o'r Panel Cyngori rhaid i Weinidogion Cymru, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, ganfod gwybodaeth a phrofiad y Comisiynydd o'r materion canlynol—

- (a) llywodraethu corfforaethol;
- (b) arfer swyddogaethau sydd wedi'i rhoi gan neu o dan ddeddfiad;
- (c) hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg neu iaith arall;
- (ch) cysylltiadau cyhoeddus;
- (d) cyfundrefnau rheoleiddiol; a
- (dd) gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus, neu wirfoddol.

(2) Wrth benodi personau yn aelodau o'r Panel Cyngori rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol bod gwybodaeth a phrofiad y Comisiynydd ac aelodau'r Panel Cyngori (gyda'i gilydd) yn cynnwys gwybodaeth a phrofiad o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1).

## Knowledge and experience

4.—(1) Before appointing persons as members of the Advisory Panel the Welsh Ministers must, as far as is reasonably practicable, ascertain the Commissioner's knowledge and experience of the following matters—

- (a) corporate governance;
- (b) exercising functions conferred by or under an enactment;
- (c) promoting and facilitating the use of Welsh or another language;
- (d) public relations;
- (e) regulatory regimes; and
- (f) working in partnership with organisations in the public, private or voluntary sectors.

(2) In appointing persons as members of the Advisory Panel, the Welsh Ministers must have regard to the fact that it is desirable that the knowledge and experience of the Commissioner and the Advisory Panel's members (taken together) includes knowledge and experience of the matters referred to in paragraph (1).

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

11 Ionawr 2012

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

11 January 2012

---

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W1144/01/12

ON